**Canllawiau ynghylch ceisiadau rhieni/ymgeiswyr am drefniadau mynediad pan nad oes gan y ganolfan dystiolaeth o'u hangen**

Amlinellir rheoliadau a chanllawiau ynghylch trefniadau mynediad yn nogfen Trefniadau mynediad ac Addasiadau Rhesymol y CGC. Fel mae'r ddogfen hon yn ei wneud yn glir, dim ond os oes gan y ganolfan dystiolaeth bod angen y trefniant, mae 'darlun o angen', a dyma ffordd arferol yr ymgeisydd o weithio, y gellir caniatáu trefniant mynediad.

Pan fo rhiant neu ymgeisydd yn gofyn am drefniant nad yw wedi'i argymell gan athrawon pwnc, cefnogaeth ddysgu neu gynorthwywyr addysgu sy'n gyfarwydd â'r ffordd y mae'r ymgeisydd yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth, dylai'r SENCo, cydlynydd trefniadau mynediad neu aelod cyfatebol o staff ymchwilio'n llawn i'r cais.

Gall hyn gynnwys:

- siarad yn uniongyrchol â'r ymgeisydd am ei brofiadau ac anawsterau canfyddedig;
- ymgynghori ag athrawon pwnc a staff cefnogi sy'n deall ymddygiad a pherfformiad yr ymgeisydd yn yr ystafell ddosbarth;
- cynnal sgrinio anffurfiol neu asesiadau arsylwadol (lle bo'n briodol ac yn gymesur);
- adolygu gwaith dosbarth, tasgau wedi'u hamseru neu sgriptiau arholiadau ffug am dystiolaeth o anhawster.

Os penderfynir nad yw'r trefniant mynediad yn cael ei gyfiawnhau neu'n amhriodol, dylai'r SENCo (neu gyfwerth) roi adborth i'r rhiant neu'r ymgeisydd, gan esbonio pam na fyddai'r trefniant y gofynnwyd amdano yn briodol. Er enghraifft, dylid esbonio'r canlynol:

- rhaid i'r ganolfan gadw'n llym at reoliadau'r CGC;
- byddai rhoi trefniadau heb y dystiolaeth angenrheidiol yn achos o gamymddwyn;
- nid yw trefniadau mynediad yn cael eu rhoi ar sail dewis neu ddiagnosis yn unig; rhaid iddynt adlewyrchu sut mae'r ymgeisydd fel arfer yn gweithio yn y ganolfan a'r hyn sydd ei angen i gael gwared ar anfantais.

Gallai dogfen *Canllawiau i rieni, gofalwyr a myfyrwyr am drefniadau* mynediad y CGC fod yn adnodd defnyddiol. Mae'n bwysig bod rhieni ac ymgeiswyr yn deall bod yn rhaid i'r ganolfan weithio o fewn y rheoliadau cyhoeddedig.

Os yw'r rhiant neu'r ymgeisydd yn parhau i ofyn am y trefniant, dylai'r SENCo (neu gyfwerth) gyfeirio'r mater i aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Yn ddelfrydol, bydd aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth sydd â gwybodaeth waith da o ddogfen Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol y CGC a all ymgysylltu â rhieni ac ymgeiswyr mewn ffordd gefnogol ond gwybodus. Dylai'r uwch arweinydd wedyn gysylltu â'r rhiant neu'r ymgeisydd gan esbonio pam na fyddai'r trefniant yn briodol. Dylent atgyfnerthu sefyllfa'r ganolfan a'r cyfyngiadau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'n rhaid iddi weithredu ynddynt.

**Dim ond** lle mae'r ganolfan yn cefnogi hynny y dylid gwneud ceisiadau ar-lein a dylai'r ymgeisydd hefyd fodloni'r meini prawf cyhoeddedig i dderbyn y trefniant (trefniadau) mynediad a chael y dystiolaeth ategol lawn yn ei lle.